

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Rhif 173
Gorffennaf 2022

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Eirlys Edwards-Behi
Pensychnant ger Conwy 28 Mai 2022

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk



Cofnodi ac achub y fagiën

Mae yna brosiect ar droed yn ne Lloegr i ail gyflwyno magïod i'r gwyllt. Ydi [hyn](#) yn beth da i'w wneud tybed? Dyma ddyfyniad cynnar o ardal Dolgellau. Mae'r cofnod hwn o ddiwedd yr 18g yn rhoi syniad i ni pa mor gyffredin oedd magïod ar un adeg:

1 Awst 1796, Dolgellau: *We had three tedious miles to go after reaching what we fully expected was the outskirts [of] Dolgelle, and mistaking frequently the glow worms in the hedges for lights in the town. The glow worms were this night unusually [bright?] and I was not a little surprised to see them at our approach darting over the hedges into the fields -*
Journal of a Tour through North Wales (1797) A. Aitkin

YDYCH CHI WEDI GWELD PRYF TÂN?

Mae angen eich help arnom! Rydym yn chwilio am gofnodion ar gyfer pryfed tân yn y sir (*Lampyrus noctulosa*). Yn seiliedig ar y cofnodion a gawn, gallai hyn arwain at ddatblygu prosiect ailgyflwyno.



Beth i wylio amdano... Mae gwrywod fel arfer yn edrych fel chwiliod, nid oes gan y berywod unrhyw adenydd ac maent yn edrych yn debyg i'r larfae.



Mae golau gwyrddlas-oren yn disgleirio o ben ôl y pryf tân benywa yn ystod y nos. Mae'n dringo coesymau planhigion ac yn dangos y golau gwyrddlas er mwyn denu'r gwrywod. Mae'r oedolion yn 1.5-2.5 cm.




Ble i edrych? Mae gerddi, perthi a llwybrau coetiroedd, rhostioredi a chlogwyni i gyd yn gynffwrdd posibl ar gyfer pryfed tân. Mae'r larfae yn bennaf dan greigiau, yn bwydo ar falwod a gwllthod.

Pryd? Mae oedolion o gwmpas am gyfnod byr yn unig ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Gwelir y larfae yn ystod gwannwyr-haf.

Os byddwch chi'n gweld, neu os ydych chi wedi gweld, pryf tân yn Sir Gaerfyrddin, rhowch wybod i ni: glowworms@cartharshireremeadows.com gyda lleoliad/cyfeirnod grid, cynefin a dyddiad (bydd amcan o hyn yn iawn). Os ydych yn ansicr — anfonwch llun!



believe it, two males with the female tonight.... I went down to the site as usual to see what was happening. Halfway there it started to rain [3 Mehefin, y glaw cyntaf ers wythnosau gyda llaw], as I approached the bank I could see a glow, I thought I was only going to see one female. When I looked closely I could see there were two males as well." [2-3 Mehefin 2020 a 1 Mehefin (llun 3)], Dyma luniau Steve:



Wedi gweld [y creaduriaid bach hyn](#) yn disgleirio yn y nos, *Bioluminescence* rhyfeddol yn fy marn i. Dim syniad beth yw e, ac erioed wedi gweld un o'r blaen. Ger Coed Y Brenin, Y Ganllwyd. Rhys Llywelyn

Tân bach diniwed, cofio eu gweld pan yn blentyn ar gwr corydd yn Llanaelhaearn. Byth wedyn. Richard Parry Hughes

...dim ond wedi'i gweld nhw unwaith, yng nghwm Camddwr ddim yn bell o bwll clai argae Brianne, plwy Llanddewibrefi, yn niwedd yr 1980au) Gwyn Jones

Roedd y tân bach diniwed ar lethrau gorllewinol y [Gogarth c29 Mehefin 2015](#). Marc Hughes

[A'u henwau yn Gymraeg: Beth yw'ch enw chi amdany'n nhw? Ydy 'pryf tân' yn air byw yn Sir Gaer?](#) Magïen i ni yn ne-ddwyrain Sir Aberteifi

(Gwyn ddarparodd y poster uchod). Gwyn Jones

Tân bach diniwad - Llanbedrog Morwen Jones

Rhannwch eich cofnion - beth am dynnu llun o'r cynefin gefn dydd golau?

Gwres mawr a therfysg

Gwres mawr a therfysg 18-19 Mehefin 1936 (a 19 Mehefin 2022 mewn manau)

Terfysg yn gysylltiedig a gwres mawr laddodd Wil Ty Gwyn druan ar y 19 Mehefin 1936. Yn ôl yr [Herald Gymraeg](#) "Lladdwyd gwas fferm o'r enw Mr. Willie Parry, tua 24 mlwydd oed, oedd yn gweithio ar fferm Coed y Fron. Mynytho, gan fellten. Aeth y trancedig i'r cae i chwynnu yn y bore, ac yn ystod cawod o law a mellt aeth i gysgodi o dan goeden wrth y clawdd", Dyma gofnod John Owen, Crowrach, Bwlchtocyn, am yr achlysur "Terfysgu yn arw bore a bwrw. Terfysgu bu am sbel pnawn wedyn. Dechrau priddo tatws. Pry llwyd [roedd o'n cofnodi y pry llwyd pob blwyddyn]. Lladd Wil Ty Gwyn (Mynytho) gan fellten."

Dyma doriad o'r Herald Cymraeg 22 Mehefin 1936 (diolch i Dafydd Richard Hughes)

Y-STORM ENBYD

Mellten yn Lladd Dyn ym Mynytho,

Bore Gwener ymwelwyd â g ardal oedd Llŷn ac Eifionydd gan ystwm enbyd o fellt a tharannau, yn dilyn dau ddiwrnod o dywydd neilltuoel o wreocog.

Ymddangys fod yr ystwm yn ei hanterth yn ardal oedd Mynytho ac Abernoch. Lladdwyd gwas fferm o'r enw Mr. Willie Parry, tua 24 mlwydd oed, oedd yn gweithio ar fferm Coed y Fron, Mynytho, gan fellten. Aeth y trancedig i'r cae i chwynnu yn y bore, ac yn ystod cawod o law aeth i gysgodi o dan goeden wrth y clawdd. Darganfuwyd ef yn farw gan ei feistr, Mr. Edward Parry, o dan y goeden ychydig amser yn ddiwedd-arach.

Mab oedd y trancedig i Mr. a Mrs. Thomas Parry, Tai Newyddion, Mynytho, ac yr oedd yn gwasanaethu yng Nghoed y Fron ers amryw flynyddoedd, ac ystyrrid ef yn weithiwr medrus ac ewyllsgar. Yr oedd hefyd yn uchel iawn ei barch ymysg ei gyf-odeion.

Dywedodd rhai o drigolion yr ardal wrth ein gobedydd mai dyma'r storm fwyaf ofnadwy o fellt a tharannau a welwyd erioed yn yr ardal. Yn ffordus, byr iawn fu parhad y mellt a'r tarannau—rhw ddeug munud i gyd; ond yr oedd yr effaith yn ofnadwy.

Rhannodd sawl un eu cof am y [digwyddiad](#) hwn yn Cymuned Llên Natur

Meddai Dafydd: "Mynytho yn wybyddus fel lle drwg am fellt" (mae'n siwr bod tywysydd mellt ar fast Mynydd Rhiw?)

A beth am yr un diwrnod eleni? Stori trist yn anffodus – mwy na thrist – gofidus yn wir:

"Hundreds of baby birds have been found scattered around streets in southern Spain after falling from their nests in a desperate attempt to escape an extreme summer heat wave. The birds, swifts specifically, often make their nests in buildings where construction materials such as concrete or sheet metal are used. These conditions, combined with an ongoing Spanish heat wave that has seen temperatures soar to over 104 degrees Fahrenheit in recent days, can turn their nests into ovens. 'They're literally being cooked,' said Elena Moreno Portillo, an animal activist at the Seville-based conservation group Ecourbe told The Guardian newspaper. The group's Facebook page shows how people have been collecting boxes full of the baby birds. In Seville and Cordoba, where there are large urban colonies of swifts, as many as 100 have been collected in a single day."



Ymledodd y gwres mawr (y 40C+) o Sbaen (llun) dros Ffrainc a chyffwrdd de Lloegr dros y cyfnod, cyn cilio o Brydain ar y 19 Mehefin. Yr oedd yn anarferol, a'r hyn laddodd y gwenoliaid duon oedd amseriad cynnar y gwres, gan daro (a tharfu) ar dymor magu yr adar.



Robert yma heno yn dweud run fath. Hefyd yn defnyddio brwyn o dan y defaid adeg cneifio. Glanach na gwellt medde fo. Gwellt yn glynu yn y gwlan.
Carys Jones

Ddim yn cofio brwyn yn cael ei ddefnyddio dan anifeiliaid Ond cofio hel rhedyn a'i sychu cyn ei roi ar lawr rhai o adeiliadau'r ffarm yn y 50/60au'r ganrif ddiwethaf
Margaret Eifiona Hewitt

Oeddau nhw yn arfer rhoi talan poethion a brwyn mewn cwt lle oedd y defaid dros nos, i arbed y defaid rhag baeddu cyn cneifio
Fiona Jones
Gewch chi ddarllen mwy am [ddanadl poethion](#)

Llên Natur: Gwefan Natur i Bobl Cymru - Y Bywiadur

Heddiw mewn Hanes: 15 Mehefin 1934

Ar Cymuned Llên Natur pob dydd mae yna eitem nodwedd o'r enw Heddiw mewn Hanes sy'n rhannu un cofnod o'r Tywyddiadur o'r un dyddiad a 'heddiw', mewn blwyddyn wedi ei dewis ar hap. Mae rhai cofnodion yn dennu mwy o ymateb nag eraill, ond dyma un a ddenodd 77 o ymatebion ar ddau bwnc – a: pam defnyddio brwyn wrth gneifio? b: ac enwau ar ddail poethion.

Dyma isod gofnod 1934 a chrynodeb o'r 31 postiad yn ymateb i'r 'talianpoethion'

HEDDIW MEWN HANES 1934

Oes rhywun yn gallu dweud pam oedd eisiau brwyn at gneifio? Ydach chi'n gyfarwydd â 'talianpoethion' am danadl poethion?

15 Mehefin 1934

Lle: Llansilin, Sir Dinbych

Ffynhonnell: Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilin, Sir Dinbych. 1900 - 1967.

Nodiadau: Corddi 6 Cael brwyn at gneifio. Tocio Talianpoethion yn buarth. Mynd i Llansilin nôs at P.C. Wyau 3doz @10d= 2/6.

Brwyn a chneifio

Dengys y cofnodion hyn bod brwyn yn arbennig o addas i'r gorchwyl cneifio, a dyma pam:

Brwyn yn cael ei dorri a rhoi ar hyd llawr y ffald, dan draed y defaid. Cofio gwario amseroedd braf yn Nantllwyd, Soar y Mynydd, yn helpu wnci Alun a Dafydd i neud hyn ac i glirio wedyn.
Sian Ashton

Brwyn ar gael fel gwely, a ddim yn ddrwg am afael yn y gwlan; rhedyn yr un peth; gwellt yn ofnadwy;

Alun Elidir

Ffurf (ac amrywiadau agos)	Nifer (atystiadau FB)	Dosbarthiad (D. Daeryddol)	Ardal
<i>dalanpoethion</i>	11	Rhosgadfan 1, Pontllyfni 1, Llanerfyl 1, Llandwrog 1, Penllyn (Bala) 1, Llansilin 1, Llanfachreth (Dolg.) 1, Môn 2, Niwbwrch 1, Parc (Bala) 1, Dolgellau 1, Nantlle 1, Bryn y Maen (hen Dinb.) 1, Dinbych 1, Waunfawr 1, Bethesda 1, Rhydymain 1	Cyffredinol yn y gogledd hyd at Dolgellau
<i>dalapoethion</i>	3	Llanhaearn 1, Mynytho 1, Porthmadog 1	
<i>dalynpoethion</i>	1	Llanrwst	Llŷn, Eifionnydd fwyaf
<i>dail poethion</i>	5	Trefenter (Cered.) 1, Rhoshirwaun 1, Llŷn 1, Pencarreg (Sir Gaer, d. Poithion) Esquel (Wladfa)	
<i>doilion poethion</i>	1	Llanrwst 1	
<i>dalion poethion</i>	1	Rhiwlas 1	
<i>dannedd poethion</i>	1	Uwchaled 1	
<i>talion poethion</i>	1	Edeyrnion	gogledd ddwyrain yn bennaf
<i>talan poethion</i>	3	Llanefydd 1, Llandderfel (Bala) 1, Bethesda 1	
<i>talian poethion</i>	3	Dyffryn Banw 1, Wyddgrug 1, Llanefydd 1	
<i>drynt</i>	1	Llandybïe 1	o gogledd Sir Gaefyrddin i'r de
<i>dynt</i>	2	Gorslas 1, gogledd Sir Gâr 1	

(llennatur.cymru)

Ble ma clustiau adar?



Robin goch Tremadog 14 Mehefin 2022

Eryl Jones

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk

Adar Gwladfa Patagonia: 'Y Cantor'

Yr adar mwyaf cyffredin ac eang eu dosbarthiad yn Nyffryn Camwy yw aelodau o deulu'r gwatwarwyr (*Mimidae*). Fe'u gwelir ar lwyni'r paith, ar dir amaethyddol, yn y trefi a phentrefi, ac maent yn adar bywiog a chwilfrydig. Mae yna 34 aelod yn nheulu'r *Mimidae*, i gyd yn byw yn ne a gogledd America, 5 rhywogaeth yn yr Ariannin a 3 o'r rhain yn Nyffryn Camwy.

Y gwatwarwr neu gantor aeliog, yn y Gaiman, Dyffryn Camwy



Adar main, yr un maint a'n deryn du neu fronfraith yng Nghymru, ond â chynffon hirach. Cefnau llwyd-frown, boliau golau, a llinell wen uwchben y llygad. Ceir rhywfaint o wyn ar y gynffon a'r adenydd a bydd yr amrywiaeth ym mhatrwm y gwyn, ynghyd â maint yr aderyn a dwyster y llinell wen uwch y llygad yn fodd i wahaniaethu rhwng y rhywogaethau welir yn y Dyffryn.

Ystyr yr enw *Mimidae* yw gwatwarwyr neu ddynwardwyr – rhain yw *mocking birds* yr UD am eu bod yn dynwarded caneuon adar eraill i ychwanegu at eu repertoire cyfoethog eu hunnain. Dyma strategaeth welir hefyd ymysg teuluoedd eraill o adar ar draws y byd, a thybir mai y rheswm am hynny yw bod yr iâr yn debycach o ddewis cymar gyda'r amrywiaeth fwyaf yn ei gân. Bydd hynny'n arwydd o geiliog profiadol a llwyddiannus; goroeswr sy'n gwybod be ydi be ac wedi cael amser i gyfoethogi ei gân. Bydd yn debycach felly o wneud job dda o fagu'r cywion.



Gwatwarwr y paith, sydd ychydig yn llai na'r gwatwarwr aeliog

Y gwatwarwyr yw'r enw safonol Cymraeg ar y mathau welir yn Nyffryn Camwy, a'r ddau mwyaf cyffredin yw gwatwarwr aeliog (*Mimus saturninus*) sydd i'w weld

amlaf o fewn ac o gwmpas tref y Gaiman, a gwatwarwr y paith (*Mimus patagonicus*) sydd fwyaf cyffredin ar y paith. Ni welais y gwatwrwr adeinwyn (*Mimus triurus*) yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2022.


Enwau Sbaenaidd y gwatwarwr yw calandria, ond mae enw Cymraeg gan Gymry Patagonia, sef y cantor. Enw addas iawn o ystyried cyfoeth ei gân. Mae'n debyg mai yr un aeliog fyddai'n ennill o ryw ychydig pe cynhelid Eisteddfod yr adar, a dywedir ei fod yn aml yn dynwarded chwiban ddynol. Bum yn chwibannu nodau amrywiol ar rai ohonynt sawl gwaith, a'r deryn yr ymateb drwy ddistewi, dod yn nes, a gwrando'n astud â'i ben wedi gwyro ychydig i un ochr. Ond wnaeth yr un fy nynwarded. E'lla y byddai gwell siawns o hynny yn y tymor nythu, oedd rai misoedd i ffwrdd, neu fy mod yn chwibanwr gwael iwn, pwy a wŷr?

Dyddiadur Twm Elias: y "Tomishio"

Un o'r pethau pwysicaf ddysgodd y Gwladfawyr cynnar oddiar frodorion gwreiddiol ardal Chubut, y Tehuelche, oedd pa rai o blanhigion y paith oedd yn ddefnyddiol fel meddyginiaethau neu yn fwyadwy a pha rai i'w hosgoi am eu bod yn wenwynig. Un o'r rhain yw y **tomillo**; i'w ynganu fel 'tomishio' am fod yr 'll' Gymraeg yn troi yn **'sh' yn fersiwn Patagonia** o'r iaith Sbaeneg. Ystyr tomillo, sy'n enw Sbaeneg, yw teim. Ni chlywais am enw Cymraeg iddo ac nid ydwyf, hyd yn hyn, wedi darganfod yr enw brodorol. Ei enw gwyddonol yw *Acantholippia serphioides*, teulu'r *Verbenaceae*.

Llwyn bychan coediog yn sefyll tua dwy droedfedd o'r llawr yw'r tomillo, gyda dail bychain llwydwyrdd yn tyfu yn syth o'r coesyn a chlwtwr o flodau bychain gwynion ar flaenau'r canghennau. Pan wasgwch y dail bydd arogl aromatig hyfryd ar eich bysedd, yn gyfuniad, yn fy marn i beth bynnag, o *Vic* (yr eli aroglus roddwch ar eich gwddw dros nos i leddfu dolur gwddw) a mint. Mae'n blanhigyn adnabyddus ar draws canolbarth yr Ariannin ac mae sawl defnydd iddo. Bydd trigolion y Gaiman yn ei ddefnyddio fel perllysieuyn ar gig i'w rostio, yn enwedig cyw iâr, ac fel trwyth i wella dolur gwddw a diffyg llais.

Mae amryw o gemegau aromatig i'w cael yn y tomillo a gall y rhain amrywio ryw ychydig o ardal i ardal a thrwy'r tymhorau (1). Pan gafodd un o drigolion y Gaiman, Rebeca White, annwyd trwm a dolur gwddw ddiwedd Mai 2022, sef yr 'annwyd newid tywydd' geir yma yn y gaeaf, ei meddyginiaeth oedd trwyth poeth o'r tomillo gyda mêl a sug lemon ynddo. **Twm Elias**



Tomillo / Tomishio
Acantholippia serphioides
© Wikimedia





disgwylir hefyd bydd 'na rhai eraill yn cyrraedd yno unrhyw amser.

Nid yw cydfyw gyda'r blaidd yn rhywbeth newydd os ydyn ni'n edrych ar lun uchod gan Morgan . Mae sawl stori werin yn son am yr un digwyddiad sef cerddor bagbib yn gorfod "cydfyw" gyda blaidd, am noson gyfan, a chanu ei offeryn ar ôl i'r ddau syrthio mewn trap. Mae'r stori hon yn cael ei dweud mewn ffordd werinol gyda Loeiz Bevan o blwyf Bubri yn ardal Morbihan ac mewn iaith mwy llenyddol mewn llyfr gan Yeun ar Gow.

Oes a fu, y 19eg G, mae L. Bevan a Y. Ar Gow yn ei disgrifio. Oddeutu 150 o flynyddoedd wedyn, mae Loïc Obled, cyfarwyddwr **Office Français de la Biodiversity** (OFB), yn dweud ei bod hi'n newyddion da bod bleiddiaid yn gallu teithio mor bell - newyddion bod llawer o Ffrancwyr o blaid presenoldeb bleiddiaid ac o ganlyniad, hwyrach, o blaid presenoldeb rhywogaethau eraill. Mae gwarchod yr unigolyn yn Llydaw, gwarchod poblogaeth bleiddiaid yno yn gyffredinol, a gwarchod rhywogaeth *Canis lupus* yn gyffredinol, ôll yn cyd-fynd.

Yr hyn sy'n poeni rhai pobl yw croesrywiaeth bleiddiau gyda chŵn. Mae croesryw'n bosib rhwng y ddwy rhywogaeth ond ofergoeliaeth llwyr yw'r math hwn o ofn. Mae'r ofn hwn yn gwneud i rhai pobl feddwl bod angen cael gwared o fleiddiaid. Dangosir bod y ganran honno yn isel iawn, o gwmpas 1.5% yn unig. Gofynnir i bobl ddefnyddio synnwyr cyffredin a chadw rheolaeth ar eu cŵn. Nid yw'r ofn gweld bleiddiaid yn difa amywiaeth o adar ac anifeiliaid yn ddim ond chwedl. Mae pobl angen meddwl yn galetach am y niwed y mae gweithgareddau dyn yn ei wneud.

Ni fyddan ni ddim yn son am bwma (neu lew mynydd) Penllŷn y tro 'ma; gawn ni weld os fydd 'na dystiolaeth cadarn yn dod i'r amlwg. Mae tystiolaeth pendant, ar ffurf fideo (gweler Glas 172), o bresenoldeb y blaidd yn Llydaw yn gwneud i bobl feddwl am ddyfodol bleiddiaid yn y wlad –



Barn Obled yw mai gan fod ond un blaidd yn Llydaw ar y foment, mae'n bwysig bod tystiolaeth yn hollol ffeithiol a chadarn i osgoi unrhyw gamwybodaeth a Newyddion Ffug. Dyma beth yw egwyddorion y wefan **Groupe Loup Bretagne/Strollad Bleiz Breizh (Grŵp Blaidd Llydaw)** sy'n rhoi sail i'r bennod hon.

Mae'r sector amaethyddol yn cymryd lle amlwg mewn trafodaethau. Mae nifer o gŵn rhydd yn creu mwy o drafferth mewn ambell i le, sydd ddim yn cael yr yr un sylw â'r bleiddiaid; mae llawer o orddweud am bresenoldeb y blaidd. Mae 'na dystiolaeth bod bleiddiaid wedi ymosod ar gŵn yn yr Eidal a Gwlad Groeg. Mae hynny'n siwr o greu emosiynau negyddol sy'n gofyn am bwylo ac ymateb yn gyfrifol.

Mae gan y blaidd statws swyddogol yn dilyn cytundebau rhyngwladol (Cytundeb Bern). Nid yw'n bosibl ei ddifa ag eithrio mewn amodau penodol sy wedi eu diffinio'n fanwl. Tybed a fydd sefyllfa'r blaidd yn Llydaw yn debyg i sefyllfa [Veluwe](#) yn Iseldiroedd lle mae [cnud](#) o fleiddiaid wedi ymcartrefu ers [2019](#) (BBC). Mae'n ymddangos bod y cnud hwn yn denu twristiaid. Bu'n rhaid i'r awdurdodau ymyryd â'r broblem a rhoi dirwy i droseddwr.



**“Pa vez komzet eus ar bleiz
E vez gwelet e lost
A-bell pe a-dost”**

Pan ma rhywun yn son am y blaidd / Mae rhywun yn siwr o weld ei gyffnon / O bell neu o agos

Mae 'na dipyn o son am fleiddiaid y dyddiau 'ma.

Mae stori Yellowstone lle ailgartrefwyd 8 blaidd o Alberta, Canada. Mae 'na elfen o orddweud am ganlyniad presenoldeb y cnud o fleiddiaid hyn yn ôl [erthygl o'r Guardian](#) ar 23 Mehefin 2022. Roedd y sefyllfa newydd wedi creu “tirwedd o fraw” yn ôl y Guardian oedd yn mynd i cael effaith ddramatig ar fywyd gwylt yno. Gwelsom yma gynffon stori'r blaidd, “lost ar bleiz” y Llydawyr ; anelu at weld y llun cyfan sydd angen.

Atgofion fferm Plas Isaf

Atgofion Dr Gareth Howells o'i ymweliadau gwyliau fel bachgen yn y 1950au â fferm Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Cyn ei ymddeoliad roedd Gareth yn Ddirprwy Swyddog Rhanbarthol y Cyngor Gwarchod Natur. Mae'n destament byw gan fachgen sylwgar, deallus a mymryn yn ddiuniwedd wedi ei ysgrifennu mewn Saesneg coeth a gafaelgar.

A Vale of Clwyd farm in the 1950s, Plas Isaf, Llanbedr D.C. I first stayed at Plas Isaf farm as a schoolboy in the early 1950's. The farm, with its old house (Grade 11 listed, with Tudor sections) and extensive range of buildings was then a prominent feature of Llanbedr village, two miles from Ruthin on the Mold road. The village centre contained the Griffin Inn, the village shop with petrol pumps, St. Peter's church and Plas Isaf farm. Within 400 yards lay, the essential smithy at Pentre, the rectory and Llanbedr Hall and 3 or 4 other houses including a pair of Council houses, one occupied by William Owen, who worked at Plas Isaf, and his wife Morfydd. The settlement was dominated on the eastern sky line by Moel Ffenlli and Moel Famau forming part of the Clwydian Hills.



Fig 1 shows the farm from the east looking towards Ruthin with the hills of the Denbjgh Moors/ Mynydd Hiraethog range behind

The farm was owned by the energetic and petite Mrs Mary Taylor who was the widow of Jack Taylor. (I believe there was a family link with Plas Uchaf in Llanfair D.C.). She became friendly with my parents through being a customer of Barclays Bank in Ruthin where my father was on the staff, so that after I was born she became my godmother known to me as Aunt Mary. In my mid-teens we lived in Chester so we used to visit and I was then invited to stay on the farm in my holidays where I enjoyed helping with a wide variety of farm work. I took many photos, using a Kodak folding, bellows 120 film camera. Looking at these photos recently prompted me to write this account of my time at Plas Isaf.



Fig 2 - Aunt Mary and Roy with Plas Isaf house behind and The Griffin Inn to its left beyond the farm house

When I first stayed at Plas Isaf there was no electricity and oil lamps were used at night which was quite eerie going to bed with a small oil lamp in a dark, quiet old house. There was a bathroom on the half landing but no W.C., just an

Elsan, which had to be emptied regularly. For daytime, there was the Ty Bach, a small building in the orchard / vegetable garden, with another Elsan and a supply of cut-up newspaper. Mains electricity and plumbing /WC were installed in the late 1950s.

The working entrance to the house was directly from the yard which led into a large room which was the hub of domestic activity. Along one wall was a large working table about 12 foot long with a 1 1/2" thick wooden top, the surface was smooth and polished by much use, and hanging over it at one end from hooks in a beam, were hams from the farm pigs.

Tecwyn and William Owen, the farm hands, ate their meals at this table while another small more decorative square table was used by Aunt Mary and me and for providing tea for visitors. Although on special occasions the parlour was used to entertain visitors. There were a couple of easy chairs, a dresser and cupboards and the latest newspaper and Farmers Weekly were always present. Heating, hot water and cooking were provided by a kitchen range with a coal fire which was lit all day with an oven on one side and a water tank on the other with a tap for hot water. Kettles and pans could be heated on top of the oven or on a swinging trivet over the fire. The mat in front of the range was often occupied by one or two farm cats.

There were two other doors into this main room one led into a small scullery with a narrow steep flight of stairs running from it to a room above, which was a bedroom / living room used by Tecwyn Price (who with William Owen, carried out the farm work). In the other corner of the main room was a door leading into the smoke room and then to a passage with a door leading into the parlour at one end and to the stairs to the first floor at the other. The passage also gave access through a glazed door to a veranda overlooking the front garden which lay between the house and the road dominated by a lawn and two large cedars.

Dyma ddiwedd RHAN 1 atgofion Dr Gareth Howells. Byddan yn cyhoeddi'r rhanau eraill yn rhifynau Glas sy'n dod. Mae'r atgofion i gyd ar [y ddolen hon](#).

Cymylau newydd i wyddoniaeth!



Y cymylau rhyfedda eto uwchben Harlech tua 5.30 y pnawn'ma (23 Mehefin 2022). Rhyw awr yn gynt roedd yn haul braf a'r awyr yn glir!

Haf Meredydd

Dwi'n meddwl mai ['Asperitas'](#) ydy enw rhain.

Rhodri Evans

Roedd y sychder diweddar wedi cychwyn yn Ewrop tua'r 11 Mehefin. Oedd cymylau 'Asperitas' Haf yn arwydd o newid yn y tywydd?

Golygydd

Bwrw yn Stiniog am 6 [ar y 23 Mehefin] ond oedd hi'n ddu dros Traws ers tua 4.30. Wedi sychu yma rwan ond yn gymylog ofnadwy


Edwina Fletcher

Storm 3 Mehefin 2022

Cymerodd Dafydd Richard Hughes fantais o'r holl dechnoleg sydd ar gael iddo i rannu cofnod call o ddigwyddiad tywydd eitha lleoliad ond cofiadwy am 14.55 ar 3 Mehefin. Mi fasa'n braf cael syniad o sut ddaru'r **storm** ddatblygu yn yr oriau cynt a wedyn.

Yr un pryd cawson ni luniau dramatig ohoni, a sylwadau gwerth chweil. Cymharwch eu lleoliad â'r map. Dyma nhw:

■ Bangor wedi osgoi'r cwbl! Sych trwy'r dydd! Dolgellau hefyd. Wel, ychydig o law am dipyn, ond dim llawer. **Catrin Elis Williams**




■ Wedi bod yn lwcus iawn yn Neiniolen. Ychydig bach iawn o law ond mae'n edrych yn stormys iawn. **Geraint Thomas**

■ Saith awr o storm yn Port. [Porthmadog] Y daran gyntaf yma chydig ar ôl hanar dydd. **Elfyn Lewis**

■ Sych yma yn Llanbedrog ond gweld y duwch dros Cricieth. Y mab newydd [ddod adre] o Borthmadog ac yn dweud hanes y terfysg. **Greta Huws**

■ *It never came to Abererch* **Nikki Hardman**

■ O'n i yng Nghricieth neithiwr ac roedd hin dawel dawel yno, tawelwch o flaen y storm maen amlwg **Rhian M Roberts**



■ Mae'n derfysg yma [Llanystumdwy?] ers tua 1.30! **Awen Hamilton**

■ O 12:30 ymlaen, Criccieth a Llanystumdwy Bobl bach. Dyddie braf yma drwy'r wythnos ym Mhencoe. **Mari Watson**

■ Mae'n braf yn Llandudno, ond peidiwch â dweud wrth y Saeson! **Dwynwen Murray**

■ Mae'r storm taranau yn ôl yma ym Mhonthlyfni rwan hefyd **Gareth Pritchard**


■ Braf yn Nyffryn Clwyd! Teresa Wynn Wedi bod yn fendigedig yma drwy'r dydd. Sir Gaerfyrddin **Gwenllian Baum-Jones**

■ Dim cenllysg na glaw mawr ym Mhorth Neigwl yn ôl cymdoges yn Waunfawr (oedd yno ddoe 3 Mehefin), **Angharad Booth Taylor**

Cenllysg mawr yn Nghricieth, a Thrawsfynydd y peli yn cael eu cymharu â 'marblis', 'togos' (y marblis mawr) a 'pheli golff'.

■ Cenllysg bras odd o fel dwi di ddallt. Wnaeth o'm cyrredd yma i Gwm Prysor diolch byth er mai 3 milltir o'r pentre ydan ni! **Mair Huws**

■ Newydd fod i Criccieth i gael te prynhawn, oedd hi yn ofnadwy, gorfod dod nol i garavan reit handy erioed di gweld dim byd o'r fath, hanner dydd heddiw a dal i fwrw a trannu **Nia Rowlands**



Dyma'r sefyllfa yn Waunfawr ar 3 Mehefin (gorsaf Maes Gwynedd Gethin Pritchard)

Am 3 o'r gloch (amser y cododd DRH y map roedd y diwrnod heibio ei boethaf graff ① gydag awel o'r gogledd ddwyrain graffiau ② a ③. Doedd dim glaw wedi cyrraedd Waunfawr mi gyrrhaeddodd tair awr wedyn, graff ④ ac roedd y gwasgedd aer yn codi graff ⑤. Roedd hi wedi dechrau cymylu erbyn 3 o'r gloch graff ⑥.



5200 erbyn hyn!

Mae Cymuned Llên Natur yn mynd ers 2018 erbyn hyn. Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod ni wedi goddiweddyd 5 mil o aelodau yn ddiweddar. Mae'n syndod y ffordd mae'r Grŵp wedi datblygu gyda phawb yn datblygu eu sgiliau maes yn gyflym iawn, a phawb yn barod i rannu o'u profiad i helpu eraill i ddatblygu. Hir oes i'r syniad... a daliwch i gofnodi ar draws y pynciau amgylcheddol.

Llên Natur June 3 at 11:43 PM

Mae'r Grŵp hwn newydd gyrraedd 5 mil o aelodau. Diolch i bawb.

- Bethan Vaughan Davies Da iawn a diolch yn fawr i chi ag yr aelodau am ei lluniau gwych!
- Netta Pritchard Gwych wrth fy modd yn gweld lluniau bawb.
- Oswyn Williams Diolch am yr addysg natur yn ddyddiol.
- Nia Evans Pob un yn werth chwell!!
- Angharad Jones Haeddiant llwyr!
- Dafydd Williams Dwi wedi dysgu llawer iawn ers ymaelodi, diolch.
- Eirian Hughesbaines Gwych! Wrth fy modd yn gweld lluniau pawb, Maent yn dod atgofion hyfryd ag hapus iawn imi o fy mhientlyndod yn Nhyffryn Conwy. Diolch o galon ichi gyd. Hiraeth
- Eirianwen Blackford Mwynhau y grŵp yn fawr. Diolch yn fawr. Rhyfeddu at rai o'r lluniau bendigedig hefyd.

- Glyn Owen
- Nia Evans Grŵp gwych!!
- Einir Wyn Kirkwood Diolch i Llên Natur!
- Alwena Roberts Da iawn mwynhau y grŵp diddorol ac addysgol a lluniau gwych
- Ann Gruffydd Owen Gwych, mwynhau Llên Natur yn fawr iawn, addysgol a diddorol a lluniau gwych. Diolch
- Dafydd Morris A dyma un teulu bach ohonynt (!) wrth Bwll Rosie, Parc Gwepre, Cei Connah, yn ystod y parkrun fore heddiw, 4 Mehefin 2022.
- Jessie Elis Da



Adnodd i blant, athrawon a rhieni

Hed _____ fel dart heibio,—a'i wgu

1



Lygaid yn
tanbeidio

Eifion Wyn

_____ ar ben y rhiniog
Yn gofyn tamaid heb un geiniog

4



Hwiangerdd draddodiadol

Pa artist â chân bertach— hwyr denor

2



T. Llew Jones

Du ei ŵn, fel mynach

5

Fe ddaw i sil y ffenest
Pan fydd y bwyd yn brin



T. Llew Jones

Y _____ yn eu tro,
Glywid o Lwyncoed,
Cwm y Glo

R. Williams Parry

3



Rhyfeddais, sefais yn syn – i'w wyllo

Rhwng yr helyg
melyn

6

Trebor Roberts

Enwch yr aderyn	Pwynt	Enwch yr aderyn	Pa rif?	Pwynt
1	30	4		10
2	20	5		10
3	15	6		15

Mae CYHOEDDIADAU (ar y wefan) yn gronfa o holl ôl-rifynnau'r Bwletin (Glas erbyn hyn) a phosteri sydd yma. Gellir eu chwilio gydag un chwilair. Cyfraniad Gareth Pritchard yw'r posterï am adar.

CLICIWCH!

Cyhoeddiadau
Bwletinau Posterï

